Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
Andrew Green
Prif Weithredwr:
Dr Ioan Matthews

Ffôn:
01267 610400
Ebost:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

CYLCHLYTHYR

Dyfarniadau grantiau bach o'r Gronfa Datblygiadau Strategol

Dyddiad: 11 Mawrth 2015

Cyfeirnod: 14/06

At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol

Ymateb Erbyn: Nid oes angen ymateb.

Cyswllt: Dr Dafydd Trystan
E-bost: D.Trystan@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyron/

Dyfarniadau grantiau bach o'r Gronfa Datblygiadau Strategol

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno penderfyniadau'r Coleg yn sgil cylch ceisiadau grantiau bach i'w dyrannu o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2014/15 [y Coleg].

2. Gwahoddwyd ceisiadau am grantiau bach o'r Gronfa drwy gylchlythyr a gyhoeddwyd ar 24 Medi 2014 (Cylchlythyr Cyf:14/03). Derbyniwyd 38 o geisiadau erbyn y dyddiad cau (14 Tachwedd 2014).

3. Ar 1 Rhagfyr 2014, ystyriwyd y ceisiadau (a gyflwynwyd ar dempled ffurflen grantiau bach) gan swyddogion y Coleg, ynghyd â Dr Hefin Jones, Deon y Coleg a Denise Williams, aelod allanol.

4. Mae'r argymhellion wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg. Mae penderfyniad y Coleg yn derfynol.

5. Mae'r ceisiadau prosiect y penderfynodd y Coleg eu cyllido yn **Atodiad 1**.

6. Rhyddhawyd grant gan y Coleg ar gyfer y prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo ym mis Ionawr 2015.

7. Yn achos y prosiectau hyn mae Swyddog Datblygu Prosiectau'r Coleg eisoes wedi cysylltu â'r rheolwyr prosiectau i drafod unrhyw amodau sydd ynghlwm â'r dyfarniad. Disgwylir derbyn cadarnhad ebost gan Reolydd pob prosiect yn nodi eu bod yn derbyn yr amodau hynny.

8. Nodir amodau dyfarnu'r grant a'r gofynion adrodd a monitro yn glir yn yr ohebiaeth a fydd yn cadarnhau rhyddhau'r grant. Maent yn cynnwys cadarnhau'r amserlen yn ffurfiol drwy ebost a darparu Adroddiad Diwedd Prosiect nodi deilliannau a gwariant y prosiect yn syth ar ôl cwblhau'r prosiect. Darperir Adroddiad Diwedd prosiect gan y Coleg a bydd y Coleg yn adhawlio unrhyw danwariant.

9. Nodir hefyd amodau cyffredinol sy'n cynnwys:

(i) Digwyddiadau Recriwtio: Disgwylir i bawb sy'n cynnal digwyddiad recriwtio i hybu aelodaeth o'r Coleg (boed i fyfyrwyr, staff Prifysgolion, disgyblion ysgol, staff ysgol neu eraill). Bydd dangos tystiolaeth o enwau a rhifau aelodaeth yn allbwn i'r prosiect a dylid cyflwyno'r dystiolaeth honno gyda'r Adroddiad Diwedd Prosiect.

(ii) Cynhadledd/Cwrs/Seminar: Disgwylir i bawb sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn cynhadledd/cwrs/seminar o dan nawdd y Coleg naill ai ymaelodi â'r Coleg neu dalu ffi lawn. Bydd dangos tystiolaeth o enwau a rhifau aelodaeth yn allbwn i'r prosiect a dylid cyflwyno'r dystiolaeth honno gyda'r Adroddiad Diwedd Prosiect.

(iii) Marchnata/Cyhoeddusrwydd: Disgwylir i unrhyw waith marchnata/ cyhoeddusrwydd gydnabod nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar bob achlysur boed hynny mewn print neu ar-lein. Gwelir http://www.colegcymraeg.ac.uk/cyhoeddiadau/brandiau/ ar gyfer copi o logos y Coleg. Dylid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir yn unol â chanllawiau brand y Coleg. Ni ddylid cam ddefnyddio'r logos drwy eu torri na'u hymestyn ac mae'n rhaid i logo'r Coleg fod yr un maint ag unrhyw logos eraill a gynhwysir. Dylid cysylltu â'r Rheolwr Cyfathrebu i wirio diwyg unrhyw waith mewn da bryd cyn cyhoeddi, sef Elin Williams 01267610408 e.williams@colegcymraeg.ac.uk.

(iv) Cyhoeddiadau: Disgwylir i bob cyhoeddiad gydnabod nawdd y Coleg yn unol â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg a disgwylir i reolydd y prosiect gysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg i wirio manylion perthnasol, sef Mari Fflur 02920 109020 m.fflur@colegcymraeg.ac.uk

(v) Termau: Os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â thermau dylid cysylltu â therminolegydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym maes Addysg Uwch, sef Tegau Andrews t.andrews@bangor.ac.uk. Dilyner y ddolen isod er mwyn gweld yr adnodd http://www.colegcymraeg.ac.uk/termau/#acen&sln=cy#

10. Yr oedd y ceisiadau sydd heb eu nodi yn y cylchlythyr hwn yn aflwyddiannus. Yn anffodus, nid oes modd darparu adborth manwl ar geisiadau nas cyllidwyd oherwydd y nifer cynyddol o geisiadau sy'n dod i law.

ATODIAD 1 Ceisiadau sydd wedi eu cefnogi

Teitl	Sefydliad	2014
Datblygu rhyngwyneb graffigol iaith Gymraeg ar gyfer meddalwedd cynllun aerodynameg	Prifysgol Abertawe	Ben Evans
Cynhadledd un dydd ar gyflogadwyedd cyfrwng Cymraeg	Prifysgol Abertawe	Kate Evans
Symposiwm Daearyddiaeth a Daeareg	Prifysgol Abertawe	Rhian Hedd Meara
Technoleg realiti estynedig a meddygaeth	Prifysgol Abertawe	Heledd Iago
Cynhadledd 'Hanes ar y Dyneiddiwr Siôn Prys' ar y cyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Prifysgol Aberystwyth	Paul O'Leary
Ymddiddori aelodau o Fudiad y Ffermwyr Ifanc mewn gwaith ymchwil	Prifysgol Aberystwyth	Hefin Williams
Addysgu Ffiseg gyda lleoliad mewn ysgol	Prifysgol Aberystwyth	Eleri Pryse
Prosiect seicoleg chwaraeon:datblygu holiadur pryder perfformiad	Prifysgol Bangor	Eleri Jones
Cynhadledd 'Boddi mewn Celfyddyd:Gwaddol '65'	Prifysgol Bangor	Gwawr Ifan
Ysgrifau gan addaswyr ar gyfer y llwyfan	Prifysgol Bangor	Manon Wyn Williams
Mynychu seminarau rhyngwladol yng Nghanada	Prifysgol Bangor	Sharon Pierce
Cyfrol ar Wyddor Cyfieithu	Prifysgol Bangor	Delyth Prys
Llythrennedd a rhifedd i blant ifanc: gweithdy awyr agored	Prifysgol Cymru:Y Drindod Dewi Sant	Delyth Kenny
Adnoddau dysgu rhyngweithiol ym maes Amaethyddiaeth	Prifysgol Cymru:Y Drindod Dewi Sant	Lowri Morgans
Hydra Suite	Prifysgol De Cymru	Judith Dacey
Cynhadledd undydd meddygaeth cyfrwng Cymraeg	Prifysgol Caerdydd	Sara Whittam